# GLYN HARRIS
## CLWB NOFIO I'R ANABL RHONDDA POLAR BEARS

Mae Glyn wedi bod yn gwirfoddoli â chlwb Rhondda Polar Bears ers bron iawn i 50 mlynedd! Pan oedd e’n gweithio fel hyfforddwyr â Chlwb Nofio Cwm Rhondda, clywodd fod clwb nofio newydd ar gyfer pobl sydd ag anableddau yn cael ei sefydlu felly fe gynigiodd ei brofiad a’i arbenigedd. Unwaith gafodd y clwb ei sefydlu, daeth Glyn yn hyfforddwr cyn ymuno â'r pwyllgor yn ddiweddarach.

Mae Glyn wedi neilltuo cymaint o amser i'r clwb dros y blynyddoedd gan helpu nifer helaeth o nofwyr. Mae'n rhoi ei amser am ddim i helpu nofwyr ifainc ac oedolion sydd ag amryw anableddau yn ystod sesiynau hyfforddiant a phan maen nhw'n cystadlu mewn galas. Mae gan y clwb fwy na 120 o aelodau bellach, ac mae eu llwyddiant a thwf parhausyn deillio o ymroddiad gwirfoddolwyr fel Glyn.




Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# GWIRFODDOLWR Y MIS
## MEHEFIN 2023